

## Cyngor Cymuned Llanllyfni

### Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 11 Mai 2021 am 7.00 o'r gloch.

#### Agenda

1. **Presenol:** Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Sian Dafydd, Peter Bridges, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Heledd Gwilym, Erfyl Williams, Justin Davies, Dylan Herbert – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, O P Huws – Llanllyfni.

**Ymddiheuriadau:** Harry Wyn Owen – Talysarn, Judith Humphreys a Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, a croeso arbennig i Ceri Owen i'w chyfarfod cyntaf fel cynghorydd ar ward Penygroes.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Justin Davies yn datgan buddiant ynglŷn â llythyr cais Siop Griffiths.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 13 Ebrill 2021** – Cynnigiodd Gwyndaf Roberts ac eiliodd Barry Bracegirdle a Hefina Roberts fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd - Parc Sglerfyrddio a BMX Talysarn** - Adroddodd Sian fod Cyngor Gwynedd wedi rhoi yswiriant dros dro ar y parc sglefrio a bmx ac nawr maent yn disgwyl i glywed nôl gan y cyngor ynglŷn â'r cyfansoddiad er mwyn cael cario ymlaen. **Llythyr Cylch yr Iaith** – Cytunodd OP Huws i ddrafftio rhywbeth ar gyfer hyn – ond penderfynwyd i ddisgwyl hyd nes cyfarfod nesaf ynghylch Dorothea.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Nid oedd y cynghorwyr yn bresennol ond roeddynt wedi paratoi adroddiadau ac roedd pawb wedi cael cyfle i edrych drostynt cyn y cyfarfod – nid oedd dim yn codi ohonynt. Diolchwyd i Judith a Craig am baratoi yr adroddiadau.

6. **Taflen ariannol a chyllid** - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros e-bost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Holodd Dafydd os oedd posib cael ffigyrau o'r nifer o etholwyr yn yr ardal yn dilyn o'r etholiad – Nia i gysylltu gyda'r Cyngor i gael y manylion hyn. (*Ffion Jones a Heledd Gwilym yn ymuno gyda'r cyfarfod*).

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / Cyfarfodydd yn ystod y mis – Cyfarfod Dorothea 20 Ebrill 2021** – Cynnigiodd OP Huws y dylid cael cyfarfod llawn arbennig i drafod hyn ag i gael rhoi cwestiynau at eu gilydd, eiliodd Gwyndaf y cynnig hwn. Penderfynwyd i gynnal cyfarfod wythnos neu ddwy cyn bydd cyfarfod nesaf Dorothea yn cael ei gynnal.

8. **Goleuadau Nadolig** – Adroddodd Gwyndaf fod y bocsys trydan wedi eu gosod yn Llanllyfni ond nad oedd y gwaith wedi ei orffen yn gyfan gwbl. Roedd anfoneb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am y gwaith hwn ond Gwyndaf o'r farn na ddylid ei dalu hyd nes bydd y gwaith wedi ei orffen, eiliodd Dafydd y cynnig hwn a'i dalu wedi iddynt orffen y gwaith – cytunodd pawb. £3000 o arian sydd yn y gyllideb i wario ar olau nadolig ag yn barod mae yna £462 a £1750 wedi ei wario sydd ddim yn gadael llawer ar ôl ar gyfer prynu golau newydd. Sian yn holi os oedd y Cyngor Cymuned wedi cytuno i gario arian llynedd drosodd am nad oedd wedi ei wario – Nia i edrych ar y cofnodion am hyn.

9. **Materion Pentrefi – Penygroes** – Barry Bracegirdle yn adrodd fod y gwaith wrth yr eglwys bellach wedi ei wneud. Adroddodd fod y tyllau ar Ffordd Yr Orsaf wrth fynedfa i fewn i Wynnstay wedi gwaethygu yn ddifrifol a'u bod yn beryglus erbyn hyn ac angen sylw brys – Ond gan fod Cyngor Gwynedd wedi dweud nad nhw sydd yn gyfrifol angen i Nia swyddog o'r cyngor i ofyn am restr mabwysiadu ffyrdd er mwyn gweld pwy sydd ei berchen. (*Justin Davies yn ymuno yn y cyfarfod*) **Llanllyfni** – Gwyndaf yn adrodd fod yr arwydd 'Llanllyfni' ar y cylchdro

wedi diflanu. Hefina adrodd fod safle Tafarn y Cwari yn llawn sbwriel ag angen sylw gan fod pobl yn cwyno am ei gyflwr. (*Dylan Herbert yn ymuno a'r cyfarfod*). OP yn cynnig i bwysu ar y cyngor i fwrw ymlaen gyda'r lle parcio ychwanegol yn Lôn Ddŵr. Holodd Gwyndaf pam fod dal angen gwneud apwyntiad i fynd i safleoedd ail-gylchu gan fod hyn yn creu problemau i safleoedd eraill fel Penygroes am fod pobl yn dympio eu sbwriel yno. Angen pwysu ar Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r llythyr anfonwyd atynt yn dilyn o'r holiadur. Cynnigiodd Dafydd y dylid gofyn i Judith a Craig i bwysu ar y cyngor am hyn hefyd. Dylan yn cynnig i Nia gysylltu gyda Steffan Jones am hyn gan mai o yw pennaeth yr adran a copio Judith a Craig i fewn i'r ebost hefyd. Golau traffic Pont Crychddwr yn achosi problemau am fod y golau ar goch y ddwy ochralot fawr o'r amser a hefyd tylla wedi dechrau ymddangos ar yr ochr y mae ceir yn trafailio – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn i holi beth sydd yn mynd ymlaen.

**Nantlle** – dim i'w adrodd. **Talysarn** – Gareth yn adrodd fod y bin baw ci ger y cae chwarae dal wedi ei orchuddio gyda bag plastig – Nia i fynd nôl at y cyngor am hyn i holi beth sydd yn digwydd. Ffordd Tal Y Llyn – canglwm wedi dechrau tyfu yno. Cynnigiodd OP Huws a Peter y dylai Nia gysylltu gyda Chyngor Gwynedd iddynt waredu ar canglwm yn syth gan y gall dyfu yn sydyn a chreu problemau mewn amser i ddod. **Nebo** – Dim i'w adrodd.

**10. Ceisiadau Cynllunio** – dim i'w drafod.

**11. Gohebiaeth** – Aethpwyd drwy yr ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn a penderfynwyd i ofyn am fwy o wybodaeth a chynllun wedi ei farcio o'r man mae Siop Griffiths eisiau i'r cyngor dalu am dorri. Ar ôl derbyn y manylion hyn yna gofyn i'r contractwyr fynd yno i weld a rhoi pris ar y gwaith.

**12. Llwybrau a Mynwentydd** – Barry yn gofyn os oes modd gofyn i'r contractwyr dorri drain sydd ar y llwybr yn Cross Street – Nia i gysylltu gyda nhw. Sian yn adrodd ei bod wedi cael sgwrs gyda Harry a wedi gofyn iddi godi rhai pethau yn y cyfarfod heno - Mis wedi pasio rwan ers rhoi yr arwyddion ym Mynwent Gorffwysfa fod y corlenni yn mynd i gael eu tynnu a gofyn i Nia i adael i'r contractwyr wybod fod yn iawn iddynt eu tynnu rwan – cytunwyd i Nia gysylltu gyda nhw. Holodd Dafydd beth sydd yn mynd i ddigwydd os yw pobl dal yn mynd i lechio sbwriel yno – bydd yn rhaid monitro y sefyllfa wrth fynd ymlaen. Problem wedi codi gyda cwningod ym Mynwent Macpela a gofyn oes modd gwneud rhywbeth am y peth? Dywedodd Barry y tro diwethaf cafwyd y broblem yma fod Harry wedi medru cael gafael ar rywun oedd gyda fferat i fynd yno – Sian i holi Harry os oes posibil trefnu hyn eto. **Tendr Macpela** – Adroddodd OP y bydd cyfarfod is-bwyllgor mynwentydd yn cael ei gynnal nos fry i drafod y 6 tendr sydd wedi dod i fewn, a gofynnodd os byddai y Cyngor llawn yn fodlon i'r is-bwyllgor benderfynu a ebostio pawbwedyn gyda'r canlyniad a'r amserlen gwaith – cytunodd pawb fod hyn yn iawn.

**13. Materion ariannol** -

- Cyngor Gwynedd – 1750.00+350.00(TAW) = £2100.00 – hwn wedi ei drafod cynt a wedi penderfynu peidio ei dalu hyd nes fydd y gwaith wedi ei orffen – cytunodd Dylan I fydn ar ôl y cyngor ynglŷn â hyn.

- Arwel Evans Plymiwr - £24.00 – cytuno i'w dalu a rhoi nodyn o ddiolch iddo am ei waith.

- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngrwyd Mai 2021 - cytunwyd

- Nia Jones - £14.39 Zoom Mai 2021 - cytunwyd